Cynigion ar gyfer Mesur ynghylch Bwyta'n Iach Mewn Ysgolion

Cynnwys

1. **Crynodeb o'r cynigion ar gyfer y Mesur**
2. **Cwestiynau Ymgynghoriad**
3. **Mesur Cynulliad Drafft**
4. **Nodiadau esboniadol**

1. Crynodeb o'r cynigion ar gyfer y Mesur

Cyflwyniad

Ym mis Mehefin 2007, roedd Jenny Randerson, Aelod y Democratiaid Rhyddfrydol ar gyfer Canol Caerdydd, yn llwyddiannus yn y bleidlais gyfrinachol gyntaf yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru am yr hawl i geisio cytundeb i gyflwyno Mesur Cynulliad a gynigir gan Aelod.

Ar 19 Medi 2007, fe gytunodd y Cynulliad, heb wrthwynebiad, y gellid cyflwyno Mesur Cynulliad arfaethedig ynghylch bwyta'n iach mewn ysgolion i'r Cynulliad ei ystyried.

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn eich gwahodd i roi sylwadau ar y Mesur arfaethedig drafft cyn ei gyflwyno i'r Cynulliad, a bydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn darparu sail ar gyfer y cynigion terfynol ar gyfer y Mesur a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Cynulliad eu hystyried fis Mawrth 2008.

Fe'ch gwahoddir i wneud sylwadau ar unrhyw rai o'r cynigion yn y Mesur arfaethedig, a cheir amlinelliad o nifer o gwestiynau penodol yn Adran 2 y ddogfen hon.

Cefndir Deddfwriaethol

Manylir ar gyd-destun cyfansoddiadol y cynnig hwn yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006). Mae'n darparu mecanwaith ar gyfer estyn pwerau deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn golygu bod Aelodau meinciau cefn y Cynulliad, yn ogystal â Llywodraeth y Cynulliad, yn cael cyflwyno Mesurau Cynulliad lle mae gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol mewn maes polisi.

Cynhwysir y prif bŵer sy'n galluogi'r Cynulliad i lunio Mesur ynghylch bwyta'n iach mewn ysgolion ym Mater 5.9 Atodlen 5 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 -

> *Mater 5.9*
>
> *Darpariaeth ynglŷn â bwyd a diod a ddarperir ar safle ysgol neu a ddarperir ar gyfer plant yn rhywle lle maent yn derbyn addysg neu ofal plant.*

Mae'n bosibl bod y Mater a ganlyn hefyd yn berthnasol i hybu bwyta'n iach mewn ysgolion yn fwy cyffredinol –

> *Mater 5.4*
>
> *Darpariaeth ynglŷn â'r cwricwlwm mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau addysg lleol.*

Pwerau fframwaith oedd y pwerau hyn yn wreiddiol, wedi'u cynnwys yn adran 178 Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006, ac fe droswyd y rhain yn bwerau llunio Mesurau gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Trosi Pwerau Fframwaith) 2007.

Cefndir

Mae yna dystiolaeth sylweddol bod gordewdra a nifer y bobl sy'n rhy drwm yn graddol gynyddu. Darganfu Arolwg Iechyd diweddaraf Cymru yr ystyrir bod 56% o oedolion yn rhy drwm neu'n ordew, gan gynnwys 19% a ystyrir yn ordew.

Mae yna ymwybyddiaeth fwy o lawer hefyd y gall deiet gwael beri i unigolion ddioddef o amrywiaeth o glefydau difrifol, gan gynnwys diabetes, clefyd cardiofasgwlaidd a rhai canserau; mae ansawdd bywyd gwael yn ffactor sylweddol mewn llawer o farwolaethau cynamserol. Mae gordewdra nid yn unig yn cael effaith fawr ar ein hiechyd; mae iddo oblygiadau economaidd sylweddol hefyd, yn enwedig i'n gwasanaeth iechyd.

Derbynnir yn eang hefyd bod gordewdra a bod yn rhy drwm yn broblemau iechyd difrifol ymhlith ein plant a'n pobl ifanc. Mae'r ffigyrau gordewdra diweddaraf yn dangos bod 37 y cant o blant ysgol yn rhy drwm.

Nid gordewdra yn unig sy'n gysylltiedig â maeth a'n patrymau bwyta. Mae mwy na 50 y cant o bobl ifanc yng Nghymru'n dioddef o bydredd dannedd. Mae hyn yn uwch o lawer nag ar gyfer gweddill y Deyrnas Unedig.

Derbynnir yn eang bod deiet iach a chytbwys a chael dŵr yfed o fewn cyrraedd yn gwella gallu plant i ddysgu trwy ganolbwyntio'n well a bod â rhychwant sylw gwell. Mae plant sy'n bwyta deiet iach yn llai tebygol o fod yn orfywiog ac yn debygol o fod yn fwy effro yn y dosbarth.

Mae'n arbennig o bwysig annog bwyta'n iach yn ystod plentyndod a'r glasoed, gan mai yn ystod y blynyddoedd cynnar hyn y mae llawer o ymddygiadau, megis arferion bwyta'n cael eu sefydlu. Mae plant yn dechrau cymryd mwy a mwy o gyfrifoldeb am y bwyd y maent yn ei fwyta, ac mae'n bwysig eu bod yn deall yr angen am ddeiet iach a chytbwys, a manteision cynnal pwysau iach. Mae'r ysgol yn amgylchedd delfrydol i hybu dealltwriaeth o faeth da.

Mae polisïau a mentrau i wella maeth a phlannu arferion bwyta iach eisoes wedi'u cychwyn yng Nghymru a gwledydd eraill. Nodwyd gan Ganolfan Iechyd Cyhoeddus Genedlaethol Cymru bod mynd i'r afael â gordewdra yn flaenoriaeth iechyd cyhoeddus allweddol.

Mae'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol Plant[1] yn nodi pedair gweithred allweddol i helpu i wella deiet plant a phobl ifanc yng Nghymru, gan gynnwys y weithred allweddol a ganlyn:

> **2.41** Mae gan bob lleoliad sy'n paratoi bwyd i blant a phobl ifanc bolisïau i hyrwyddo dewis o fwydydd iach (gan gynnwys mewn peiriannau talu) ynghyd â thocio ar nifer y byrbrydau sy'n llawn braster, halen a siwgr a'r diodydd llawn siwgr sy'n cael eu gwerthu a'u hyrwyddo.

[1] Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth (Fersiwn Cymraeg) Llywodraeth Cynulliad Cymru http://www.wales.nhs.uk/sites3/docmetadata.cfm?orgid=441&id=46876

Un o ddeg targed pennaf Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy 2004-07 Llywodraeth Cynulliad Cymru[2] yw gwella prydau ysgolion.

Mae tlodi hefyd yn fater sy'n effeithio ar y cyfleoedd ar gyfer bwyta'n iach, ac mae angen mynd i'r afael â hyn. Ein plant tlotaf sydd â'r diet gwaethaf. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, rhaid gosod dyletswydd ar ysgolion ac awdurdodau iechyd lleol i sicrhau bod y ganran uchaf bosibl o'r rheiny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn manteisio ar y prydau ysgol hynny. Ar hyn o bryd, 72 y cant yn unig sy'n manteisio ar brydau ysgol am ddim, ac mae hyn yn is fyth ymhlith grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Mae'n hanfodol bod plant yn cael eu hannog i fanteisio ar brydau ysgol am ddim, a bod hunaniaeth y plant hynny sy'n manteisio arnynt yn cael ei diogelu.

Diben y Mesur arfaethedig

Diben cyffredinol y Mesur hwn yw cael polisi cyfannol, cynhwysfawr, wedi'i wneud yng Nghymru ar faeth mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, ac mewn meithrinfeydd. Mae'n hanfodol bod maeth iach yn cael ei gynnal yn y broses addysg gyfan, trwyddi draw.

Mae'r Mesur arfaethedig yn dwyn deddfwriaeth berthnasol sy'n bodoli a'r pwerau ychwanegol a ragwelir yn y cynnig hwn ynghyd.

Mae'r Mesur arfaethedig yn mynd i'r afael â mwy na bwyd a fwyteir mewn ysgolion yn unig. Mae'n adlewyrchu'r angen i addysgu meddyliau plant ifanc, yn ogystal â'u dant. Ei fwriad yw gosod dyletswydd ar ysgolion ac awdurdodau addysg lleol i hybu bwyta'n iach yn gyffredinol, ac mae i hynny oblygiadau i'r cwricwlwm.

Bydd y Mesur yn gwneud mwy na rheoleiddio ciniawau ysgol; bydd hefyd yn edrych ar y diodydd a ddarperir mewn ysgolion, ac ar yr hyn a ddarperir mewn siopau bwyd ysgolion a pheiriannau gwerthu.

Fe fydd yna gyfrifoldeb ar bob lefel mewn ysgolion trwyddynt draw, gan osod dyletswydd ar gyrff llywodraethu ac awdurdodau addysg lleol i adrodd yn rheolaidd ar hybu bwyta'n iach. Bydd gofyn hefyd i benaethiaid adrodd i rieni ar gynnydd.

Fe ddylai bwyta'n iach a maeth da mewn ysgolion fod yn rhan o'r drefn arolygu, ac mae'n ofynnol yn y Mesur arfaethedig bod Gweinidogion yn adrodd yn flynyddol ar gynnydd ar faeth mewn ysgolion ac ar y safonau sy'n gwella.

Bydd y mesur arfaethedig hefyd yn gosod dyletswydd ar ysgolion ac awdurdodau iechyd lleol i sicrhau bod y ganran uchaf bosibl o'r rheiny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn manteisio ar y prydau ysgol hynny. Mae'n hanfodol bod plant yn cael eu hannog i fanteisio ar brydau ysgol am ddim, a bod hunaniaeth y plant hynny sy'n manteisio arnynt yn cael ei diogelu.

Fodd bynnag, nid yw'r Mesur yn manylu ar gynnwys bwyd a weinir mewn ysgolion, gan gynnwys symiau braster, siwgr, halen ac ychwanegion artiffisial. Rhaid i'r Gweinidog wneud hyn drwy reoleiddio, gan fod gofynion a chanllawiau o ran maeth yn newid o un flwyddyn i'r llall.

Bydd y Mesur arfaethedig yn sicrhau y bydd dyletswydd ar Weinidogion i ddarparu cyfarwyddyd yn ymwneud â chymhwyso egwyddorion datblygu cynaliadwy i fwyd

[2] Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cynulliad Cymru 2004-07 http://wales.gov.uk/caec/publications/susdevactionplan/plane.pdf?lang=en

mewn ysgolion, ac i gyflwyno dyletswydd ar Awdurdodau Addysg Lleol i ystyried y cyfarwyddyd hwnnw.

Yn olaf, mae'r Mesur arfaethedig yn cydnabod pwysigrwydd bod â dŵr yfed ar gael i bob plentyn, a hybu'r ffaith ei fod ar gael.

Y Polisi Presennol yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes wedi ymgymryd ag ymgynghoriad cyhoeddus ac wedi dechrau gwneud cynnydd â'i chynlluniau i wella bwyta'n iach mewn ysgolion, ond bwriad y Mesur hwn yw adeiladu ar y mentrau presennol a mynd y tu hwnt iddynt.

Blas am Oes

Ar sail y gwaith a wnaed gan weithgor *Bwyd mewn Ysgolion*, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru'r ddogfen ymgynghori *Blas am Oes*[3] rhwng mis Mehefin a mis Hydref 2006. Roedd eu hadroddiad yn cynnwys 41 o gynigion a chynhyrchwyd fersiynau ar wahân o'r adroddiad yn targedu plant oed ysgol gynradd a hefyd plant rhwng 11 a 14 oed. Derbyniwyd mwy na 500 o ymatebion ac, at ei gilydd, roedd ymatebwyr yn cefnogi'r mwyafrif o'r argymhellion.[4]

Roedd y cynigion yn cynnwys argymhelliad y dylid mabwysiadu'r safonau o ran maeth a nodwyd yn yr adroddiad, ac y dylid gwahardd gwerthu melysion, bariau grawnfwyd, a byrbrydau sawrus wedi'u pecynnu a'u prosesu. Roedd yna gynigion hefyd yn ymwneud â defnyddio a hyfforddi staff arlwyo, gan gysylltu bwyta'n iach â'r cwricwlwm, cynaliadwyedd a chyfleusterau arlwyo.

Lansiwyd *Cynllun Gweithredu Blas am Oes*[5] Llywodraeth Cynulliad Cymru ar 22 Tachwedd 2007 ac mae'n canolbwyntio ar saith maes blaenoriaeth allweddol.

Bwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru yw cyflwyno a gweithredu safonau newydd wedi'u seilio ar faetholion, bwyd a diod. Cyflawnir hyn drwy brosiect Ymchwil Gweithredu dwy flynedd, o fis Medi 2008, i ddatblygu canllawiau a'u rhoi ar brawf ar gyfer gweithredu'r safonau bwyd a maeth. Bydd pedwar awdurdod lleol yn rhoi'r prosiect ar waith ac yn rhoi adborth i bob ysgol a gynhelir. Fe fydd cynllun grant penodol hefyd ar gael i gefnogi ysgolion nad ydynt yn rhan o'r prosiect, i symud ymlaen at y safonau newydd a gynigwyd yn y cynllun gweithredu.

Dogfen ymgynghori "Cynigion ar gyfer Cynllun Electronig i Ganfod pwy sy'n Gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim"[6]

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymgynghori ar gynllun electronig arfaethedig i ganfod pwy sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Bwriad y cynllun yw cwtogi ar fiwrocratiaeth, yn enwedig i ysgolion, er mwyn annog plant i fanteisio ar yr hawl trwy ddileu'r gwarth o'r broses ymgeisio, a lleihau'r posibilrwydd o dwyll a chamgymeriadau. Y nod yw cael cynllun cenedlaethol, yn seiliedig ar wirio gan yr Awdurdod Addysg Lleol, yn lle'r systemau amrywiol sydd ar waith ar hyn o bryd.

---

[3] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Blas am Oes*, Mehefin 2006
[4] Papur Cabinet Llywodraeth Cynulliad Cymru, CAB(06-07)76, *Blas am Oes*, Mawrth 2007
[5] Datganiad i'r wasg Llywodraeth Cynulliad Cymru, 22 Tachwedd 2007, http://new.wales.gov.uk/news/presreleasearchive/221107persuasion/?lang=cy
[6] Ymgynghoriad Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i archifo, Cynigion ar gyfer cynllun electronig i ganfod pwy sy'n cymwys i gael prydau ysgol am ddim, Ionawr 2007

Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 19 Chwefror 2007 ac, o ganlyniad, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru ar fin cyflwyno system gwirio cymhwyster electronig.

Ymgynghoriad ar strategaeth ansawdd bwyd

Yn olaf, daeth ymgynghoriad cyhoeddus Llywodraeth Cynulliad Cymru[7] ar strategaeth ansawdd bwyd gyffredinol i ben ar 31 Rhagfyr 2007.

Lloegr

Ym mis Mai 2006, cyhoeddodd Llywodraeth y DU safonau newydd ar gyfer bwyd ysgol sydd i'w cyflwyno fesul cam erbyn mis Medi 2009. Gyda'i gilydd maent yn cwmpasu'r holl fwydydd sy'n cael eu gwerthu neu eu gweini mewn ysgolion. Y safonau newydd cyntaf yw'r safonau interim wedi'u seilio ar fwyd ar gyfer ciniawau ysgol a ddaeth i rym fis Medi 2006. Cyhoeddwyd cyfarwyddyd hefyd ar safonau wedi'u seilio ar fwyd ar gyfer yr holl fwydydd ysgol yn hytrach na chiniawau, a daeth y rhain yn orfodol mewn ysgolion o fis Medi 2007.

Mae yna wersi i'w dysgu, fodd bynnag, o'r profiad yn Lloegr lle mae'n bosibl bod deiet iach wedi'i gyflwyno'n rhy gyflym mewn rhai ardaloedd, a arweiniodd at ostyngiad yn nifer y plant oedd yn cael prydau ysgol.

O ganlyniad, mae'r Mesur arfaethedig hwn yn mabwysiadu dull cynyddrannol o weithredu, er mwyn i Gymru sicrhau na fydd cyflymder y diwygiadau'n estroni plant, pobl ifanc a rhieni. Mae'n ofynnol yn y Mesur bod Gweinidogion Cymru'r llunio Rheoliadau a fydd yn pennu'r safonau maeth ar gyfer bwyta'n iach mewn ysgolion. Ni fanylir ar y safonau hyn yn y Mesur.

Yr Alban

Cafwyd cynnydd sylweddol yn yr Alban hefyd. Yn 2001, fe gyhoeddodd Gweinidogion yr Alban gynlluniau i wella darpariaeth, cyflwyniad a chynnwys maethol prydau ysgol. Arweiniodd hyn at fenter *Hungry for Success*[8] sy'n canolbwyntio ar gael y cydbwysedd yn iawn a helpu disgyblion i wneud dewisiadau deallus. Hybir amrywiaeth eang o fwyd a diod iach trwy farchnata, addysg a mynd ati i annog. Yna daeth Deddf yr Alban yn sgil menter *Hungry for Success*.

Mae *Deddf Ysgolion (Hybu Iechyd a Maeth) (Yr Alban) 2007*[9] yn gosod dyletswydd cyfreithiol ar awdurdodau addysg i sicrhau y bydd y bwyd a'r diodydd y maent yn eu darparu'n bodloni'r gofynion o ran maeth y mae Gweinidogion yr Alban wedi'u gosod. Bydd hyn yn mynd y tu hwnt i gyflawniadau *Hungry for Success* ac yn cynnwys bwyd a gynigir yn siop fwyd yr ysgol neu yn y peiriant gwerthu.

Mae'r Ddeddf

- Yn gosod hybu iechyd wrth galon gweithgareddau ysgolion;
- Yn sicrhau bod bwyd a diod a weinir mewn ysgolion yn bodloni safonau o ran maeth a osodir gan Weinidogion yr Alban;

[7] Gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru, http://new.wales.gov.uk/consultations/currentconsultation/healandsoccarecurrcons/qualityfood/?lang=cy
[8] Panel Arbenigol ar Brydau Ysgol, *Hungry for Success, a Whole School Approach to School Meals in Scotland*, Tachwedd 2002
[9] *Deddf Ysgolion (Hybu Iechyd a Maeth) (Yr Alban) 2007* (2007 asp 15)

- Yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn hybu manteisio ar brydau ysgol ac, yn enwedig, prydau ysgol am ddim, ac yn hybu eu buddion;
- Yn lleihau'r gwarth sy'n gysylltiedig â phrydau ysgol am ddim trwy ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddiogelu hunaniaeth y rheiny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim;
- Yn rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol ddarparu byrbrydau a diodydd iach i ddisgyblion, naill ai am y pris y maent hwy'n talu amdanynt neu am ddim;
- Yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried datblygiad cynaliadwy wrth iddynt ddarparu bwyd a diod mewn ysgolion.

Daw'r rheoliadau o ran maeth ar gyfer bwyd a diod mewn ysgolion a ragnodir yn y Ddeddf i rym fis Awst 2008.

Costau

Llywodraeth Cynulliad Cymru, Awdurdodau Addysg Lleol, ysgolion unigol ac, i raddau llai, Estyn fydd yn talu am y costau a fydd yn codi o ganlyniad i'r Mesur arfaethedig hwn.

Mae'r gweithgareddau a'r cyfrifoldebau a allai olygu gorfod talu costau o ganlyniad uniongyrchol i'r Mesur yn cynnwys gofyniad i awdurdodau hybu bwyta'n iach; newidiadau i'r cwricwlwm; gofynion i benaethiaid adrodd yn flynyddol; ychwanegiadau at adroddiadau arolygu ysgolion; gofyniad i Weinidogion Cymru adrodd yn flynyddol i'r Cynulliad; hybu prydau ysgol yn gyffredinol; hybu prydau ysgol am ddim i ddisgyblion cymwys; a diogelu hunaniaeth disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn bosibl i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau a allai fanylu ar safonau o ran maeth a chynnwys darpariaeth dŵr yfed. Byddai'r costau o ganlyniad i'r darpariaethau hyn yn dibynnu ar yr hyn y manylir arno yn y Rheoliadau.

Opsiynau

Nid y Mesur arfaethedig yw'r unig opsiwn wrth ystyried sut i wella gwerth maethol bwyd a diod mewn ysgolion.

Yr opsiwn cyntaf yw gwneud dim. Fodd bynnag, mae risgiau'r dull hwn yn cael eu cydnabod fwyfwy. Mae gwneud dim yn debygol o arwain at gostau cynyddol ar gyfer y gwasanaeth iechyd; byddai'n effeithio'n andwyol ar iechyd a lles ein plant a'n pobl ifanc; a byddai'n effeithio'n andwyol ar eu lefelau canolbwyntio a'u gallu i ddysgu.

Yr ail opsiwn yw parhau i ddibynnu ar ewyllys da, cydweithrediad a phartneriaeth ar y cyd ag is-ddeddfwriaeth a wneir dan bwerau deddfwriaethol cyfredol. Cafwyd cynnydd ar y sail hwn hyd yma.

Fodd bynnag, y trydydd opsiwn, a gynigir yn y Mesur hwn, yw'r unig opsiwn a fyddai'n dwyn ynghyd deddfwriaeth sy'n bodoli ac yn gosod polisi cyfannol ynghylch bwyta'n iach mewn ysgolion mewn deddfwriaeth. Dyma'r ffordd fwyaf effeithiol i wella safonau o ran maeth yr holl fwyd a diod mewn ysgolion, ac i fonitro a gwerthuso'r cynnydd tuag at y nod hwn.

Crynodeb

Mae'r Mesur hwn yn cynnig adeiladu ar y cynnydd da a gafwyd eisoes yng Nghymru tuag at wella maeth ein plant a'n pobl ifanc mewn ysgolion. Mae nifer o nodau'r Mesur arfaethedig wedi'u hamlinellu yng *Nghynllun Gweithredu Blas am Oes* Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae Gweinidogion y Cynulliad wrthi ar hyn o bryd yn cynllunio camau gweithredu sy'n ymwneud â bwyta'n iach, dan bwerau rheoleiddio sy'n bodoli. Cred Jenny Randerson fod hyn o bosibl yn ffordd bragmatig i Lywodraeth y Cynulliad symud ymlaen. Er hynny, mae o'r farn bod ei llwyddiant yn y bleidlais gyfrinachol gyntaf i Aelodau preifat wedi rhoi cyfle i gorffori'n briodol dull cyfannol, ysgol gyfan o weithredu mewn deddfwriaeth. Mae'r Mesur arfaethedig yn ceisio rhoi'r elfennau allweddol sy'n angenrheidiol i gyflwyno a hybu bwyta'n iach mewn ysgolion yng Nghymru ar sail statudol.

2 Cwestiynau Ymgynghoriad

1. Ydych chi'n meddwl y bydd y Mesur arfaethedig yn hybu dull cyfannol "ysgol gyfan" o drin bwyta'n iach? A oes unrhyw bwerau ychwanegol y gellid eu cynnwys yn y Mesur i hybu'r dull hwn ymhellach mewn ysgolion?

2. Mae'r Mesur arfaethedig yn darparu ar gyfer Rheoliadau a fydd yn manylu ar safonau o ran maeth y bydd Gweinidogion Cymru'n eu cyflwyno. Ydych chi'n meddwl y bydd y dull cynyddrannol hwn o weithredu'n sicrhau na fydd cyflymder y diwygiadau'n estroni plant, phobl ifanc a rhieni?

3. A oes unrhyw bwerau ychwanegol y dylid eu hychwanegu at y Mesur arfaethedig a fyddai'n gwella bwyta'n iach ymhellach mewn ysgolion?

4. A yw'r Mesur arfaethedig yn hybu'n foddhaol egwyddorion datblygu cynaliadwy yn narpariaeth bwyd ysgol iach?

5. Ydych chi'n cytuno â'r dyletswyddau, y cyfrifoldebau a'r gofynion adrodd a gynigir yn y Mesur ar gyfer penaethiaid a llywodraethwyr? A fydd y gofynion hyn yn sicrhau y ceir cynnydd â gwella bwyta'n iach mewn ysgolion?

6. Ydych chi'n meddwl bod y dyletswyddau, y cyfrifoldebau a'r gofynion adrodd a gynigir ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, Awdurdodau Addysg Lleol a'r Prif Arolygydd Ysgolion yn ddigonol i gael effaith gadarnhaol ar weithredu a monitro bwyta'n iach mewn ysgolion?

7. Fe ddaw cost ariannol o ganlyniad i'r cynigion yn y Mesur i ran Llywodraeth Cynulliad Cymru, Awdurdodau Addysg Lleol, ysgolion ac, i raddau llai, Estyn. A fydd y cynigion hyn yn golygu y daw costau ariannol i ran eich sefydliad chi, ac os felly, beth fydd y costau hyn? (dywedwch faint fydd y costau).